# Y BWRDD GWEITHREDOL

## DYDD LLUN, 11 EBRILL 2016

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer a L.M. Stephens

Yn bresennol fel sylwedyddion:-
Y Cynghorwyr T.Devichand, J.S. Edmunds a D.C. Evans.

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
D. Hockenhull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
G. Morgan, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 10.45 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M.Gravell a J. Tremlett.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod. | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd H.A.L. Evans | 7 – Cymdeithas Tai Cantref | Ei chwaer yw Prif Weithredwr Dros Dro Cymdeithas Tai Cantref. |
| Gadawodd y Cynghorydd Evans y Siambr am weddill y cyfarfod. | | |

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 21AIN MAWRTH 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol oedd wedi ei gynnal ar 21ain Mawrth, 2016, gan eu bod yn gywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 7. CYMDEITHAS TAI CANTREF CYFYNGEDIG

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 6 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

(NODER: Nid oedd y Cynghorydd H.A.L Evans yn bresennol tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried gan ei bod eisoes wedi datgan buddiant personol.

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch trefniadau llywodraethu a gweithredu Cymdeithas Tai Cantref ar gyfer y dyfodol.

Nodwyd y byddai argymhellion y Bwrdd Gweithredol yn cael eu hystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ddydd Mercher, 13 Ebrill 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad diwygiedig.**

| ________________________ | ________________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |